



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 347 – 21 Gorffennaf 2011
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2011.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 346

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 346.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad. Cyfeiriodd at dri lefel o drafodaeth sy'n digwydd ar yr un pryd sef:

- (i) rhwng DCMS/Ymddiriedolaeth y BBC/S4C parthed aelodaeth yr Awdurdod a'r Tîm Rheoli.
- (ii) rhwng DCMS/Ymddiriedolaeth y BBC – i baratoi memorandwm am S4C.
- (iii) ar lefel Seneddol ar y Mesur Cyrff Cyhoeddus.

Mae S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC yn paratoi papur byr i'w gyflwyno i'r DCMS yn nodi'r hyn sydd wedi ei gytuno eisoes. Y bwriad yw mynd â'r model/cynnig i ymgynghoriad cyhoeddus cyn gynted â phosibl. Roedd yr aelodau yn hapus gyda'r trafodaethau ac yn cytuno â'r pwyntiau sylfaenol mae'r swyddogion wedi eu hadnabod.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad gan nodi'r isod yn benodol:

Ail-strwythuro - roedd 31 o geisiadau ar gyfer ymddeoliad cynnar wedi eu cymeradwyo erbyn hyn a rhai wedi dechrau gadael. Roedd yn cyfarfod â phob un o'r staff hyn yn unigol cyn iddynt ymadael.

Amrywiaeth – roedd S4C wedi trefnu digwyddiad ar Amrywiaeth yn yr Atrium, Caerdydd a chafwyd ymateb da dros ben. Ers y gynhadledd, mae S4C wedi cyhoeddi fideo ar Amrywiaeth ar wefan S4C.

Archif Sgrin a Sain Cymru - bydd lansiad ar faes yr Eisteddfod eleni i nodi'r trefniant ynglŷn â diogelu rhaglenni a ffilmiau cynnar S4C.

Cyd-gynhyrchu – nodwyd y cyhoeddiad am y gronfa newydd i gefnogi cyd-gynhyrchiadau ar ddydd Mawrth, 19.07.2011.

4. Gweledigaeth 2012

Rhoddodd AEO yr adborth diweddaraf yn dilyn cyhoeddi'r Weledigaeth am 2012-2015 ar ddydd Gwener 01.07.11. Mynychodd HJ, AEO, GR a GLL gyfarfod blynyddol TAC yn Aberystwyth ar ddydd Llun, 04.07.11 i drafod y mater. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chwmnïau ac unigolion i drafod y cynigion craidd yng Nghaerdydd, Caernarfon a Llangollen.

5. Cyflwyniad ar Anghenion a Darpariaeth Dechnegol S4C

Rhoddodd AR gyflwyniad ar anghenion a darpariaeth dechnegol S4C. Rhannwyd y cyflwyniad i dair rhan sef:

- Trosglwyddo rhaglenni;
- Opsiynau darlledu (Playout) ar gyfer S4C;
- Materion Strategol.

6. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Cyflwynodd GR ei adroddiad ysgrifenedig. Roedd yr amserlen yn ddiweddar yn gydbwysedd o raglenni traddodiadol ac arloesol er mwyn denu'r garfan o'r gynulleidfa sydd ddim yn gwyllo S4C yn rheolaidd. Tynnwyd sylw at yr "apps" newydd a gyflwynwyd ym maes rhaglenni plant. Cyfeiriwyd at ddarllediad yr Opera Priodas Figaro a'r penderfyniad i ddarlledu dros ddwy noson. Cyfeiriodd hefyd at yr ymateb sydd wedi bod ar y Trydar yn dilyn wythnos o raglenni Cariad @ Iaith.

7. Cyflwyniad Parthed Darpariaeth Ddrama S4C

Gofynnwyd am gyflwyniad ar ddrama er mwyn dod o hyd i'r dulliau mwyaf priodol o ganiatáu i'r Awdurdod lunio a mynegi barn am berfformiad rhaglenni. Cymharwyd Alys â Porthpenwaig, sef y ddwy gyfres ddrama estynedig, drwy edrych ar y ffigyrau gwyllo, proffil y gynulleidfa a chost y cyfresi. Wrth drafod y cyflwyniad, nododd yr Awdurdod fod y ffeithiau'n cadarnhau'r cyfraniad pwysig y gall drama ei wneud i lwyddiant y gwasanaeth. Roedd yr Awdurdod o'r farn fod hyn yn dangos fod y ddwy gyfres wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol, ond gwahanol, i'r gwasanaeth. Cytunwyd y dylid trafod rhaglenni fesul genre i'r dyfodol ond mai yn y Pwyllgor Cynnwys y dylid gwneud hynny.

8. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiadau ar Ail-strwythuro ac Arbedion Mewnol
- Adroddiad ac Argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Adroddiad ac Argymhellion y Bwrdd Masnachol
- Adroddiad ar Gynllun Corfforaethol Chwarter 2
- Adroddiad Amrywiaeth a Datblygu Talent Ch2
- Adroddiad Hyfforddiant Ch 2
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Cyllid